**CYFARFOD Y CYNGOR** **16eg MAWRTH 2016**

# RHAGLEN

## DATGAN BUDDIANNAU

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. **COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 17eg Chwefror 2016 | - | Rhifau Cofnod 112-125 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 17eg Chwefror 2016 | - | Rhifau Cofnod 51-53 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 2il Mawrth 2016 | - | Rhifau Cofnod 54-56 |

I Gadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 2il Mawrth 2016 | - | Rhifau Cofnod 86-96 |

3. **ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

4. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

5. **CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ADFYWIO'R RHYL**

Croesawu Ms Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol, i roddi diweddariad cyfrinachol i'r Cynghorwyr Tref ar brosiectau adfywio.

6. **SESIWN AGORED**

Y cyfarfod i barhau mewn sesiwn agored.

**7. CYNGOR TREF Y RHYL – COD YMARFER WEDI'I FABWYSIADU**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref yn hysbysu o newidiadau statudol yn y Cod Ymarfer Enghreifftiol ar gyfer Cynghorau Cymuned ac yn gofyn am fabwysiadu Cod Diwygiedig Cyngor Tref y Rhyl i gydymffurfio â'r rheoliadau.

**8. PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL / PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref mewn perthynas â'r cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio ar 4ydd Mai 2016.

**9. DARPARIAETH BARCIO YN Y RHYL**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi i ddilyn) yn gofyn am farn yr Aelodau ar y ddarpariaeth barcio yng nghanol y dref ar hy o bryd.

**10. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**11. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**13. AMCANESTYNIADAU CRONFEYDD WRTH GEFN / BALANSAU 2015/2016**

Derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid yn dangos balansau tebygol diwedd y flwyddyn (copi i ddilyn).

**14. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU YR HEDDLU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**15. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.